24 Heol y Gadeirlan / 24 Cathedral Road
Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Dafydd Gibbard
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Cyfeirnod:** 3188A2022

**Dyddiad cyhoeddi:** Tachwedd 2022

Annwyl Dafydd

# Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Yr hyn a wnaethom

Gwnaethom gynnal asesiad o gynnydd y Cyngor wrth ymateb i ofynion allweddol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf) rhwng Ebrill a Medi 2022. Casglwyd ein tystiolaeth drwy adolygu dogfennau a chynnal cyfweliadau. Gwnaethom hefyd ddefnyddio canfyddiadau perthnasol o'n gwaith parhaus a diweddar arall yn y Cyngor. Roedd ein gwaith yn edrych ar y trefniadau yr oedd y Cyngor yn eu rhoi ar waith wrth ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Nid asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hyn oedd y gwaith.

## Yr hyn y daethom o hyd iddo

**Mae'r Cyngor wedi cytuno ar fframwaith ar gyfer cwblhau ei hunanasesiad o berfformiad a'i nod yw llunio adroddiad terfynol ym mis Hydref 2022. Nid yw'r Cyngor wedi cadarnhau eto pryd y bydd yn cwblhau ei asesiad perfformiad panel allanol, ond nid yw'n credu y bydd yn digwydd yn 2022-23**

- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau Cymru gwblhau hunanasesiad blynyddol o'i berfformiad. Mae dull hunanasesu Cyngor Gwynedd wedi'i strwythuro ar fframwaith o saith maes corfforaethol:
    - Cynllunio Corfforaethol


cysylltwch â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg / please contact us in Welsh or English.

    - Cynllunio ariannol
    - Cynllunio'r gweithlu (pobl)
    - Caffael
    - Asedau
    - Rheoli Risg
    - Rheoli perfformiad

- Mae'r Cyngor wedi cytuno ar fframwaith ar gyfer cwblhau ei hunanasesiad ac mae wrthi'n casglu tystiolaeth. Cynhaliodd y Cyngor sesiwn gweithdy gyda'i grŵp Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mehefin 2022 i gwblhau ei fframwaith hunanasesu. Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol,  y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Pennaeth Cyllid, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, y Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant, a Rheolwr Cefnogi Busnes y Cyngor.
- Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau gweithio ar yr agwedd gwerth am arian ar ei broses hunanasesu drwy nodi gwybodaeth bresennol, sydd ar gael am ddarbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd. Mewn blynyddoedd i ddod, mae'r Cyngor yn bwriadu nodi gwybodaeth ehangach y mae angen ei chasglu er mwyn llywio ei hunanasesiad. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Cyllid wedi adolygu 'Pecyn Cymorth Gwerth am Arian' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) gyda'r bwriad o'i addasu i'w ddefnyddio yng Nghyngor Gwynedd.
- Dywedodd y Cyngor wrthym y bydd ei Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn arwain ar y gwaith hunanasesu, gyda mewnbwn gan aelodau'r Pwyllgor Craffu, Llywodraethu ac Archwilio, a'r Cabinet.
- Nid yw'r Cyngor wedi trefnu unrhyw waith ymgynghori penodol o ran y flwyddyn gyntaf hon o'i hunanasesiad. Dywedodd y Cyngor wrthym y bydd ei hunanasesiad o'i berfformiad yn 2021-22 yn defnyddio gwybodaeth o waith ymgynghori blaenorol.
- Bwriad y Cyngor yw mynd â'r adroddiad hunanasesu terfynol ar gyfer 2021-22 i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn ddiweddarach yn 2022.
- Mewn blynyddoedd i ddod, bwriad y Cyngor yw cynnwys yr hunanasesiad fel rhan o'r broses y mae'n ei dilyn i baratoi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Yn hanesyddol, mae'r adroddiad hwn fel arfer wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf bob blwyddyn. Wrth i'r Cyngor ddatblygu ei ddull o hunanasesu, mae hefyd yn bwriadu cyflwyno'r adroddiad hunanasesu i aelodau'r Fforwm Craffu, y Cabinet, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad perfformiad panel allanol unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin yn olynol. Dywedodd y Cyngor nad yw wedi gwneud cynllun na phenderfyniad pendant eto ynglŷn â phryd y bydd asesiad y panel yn digwydd. Ond nid yw'n rhagweld y bydd yn digwydd yn ystod 2022-23.

**Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu ei Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus, ac yn aros am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru cyn cwblhau'r strategaeth**

- Ar adeg ein gwaith, roedd y Cyngor yn datblygu ei drefniadau i sicrhau bod cyfranogiad y cyhoedd yn parhau.
- Mae'r Cyngor yn awyddus i aros i gael rhagor o arweiniad gan Lywodraeth Cymru, sydd i fod i ddigwydd yn ystod hydref 2022, er mwyn sicrhau ei fod yn datblygu ei Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn briodol. Ond gan ragweld derbyn yr arweiniad terfynol hwn gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi creu gweithgor bach i ddechrau datblygu ei Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd a fydd yn cwmpasu trefniadau mewnol ac ymgynghori ehangach.
- Mae'r Cyngor wrthi'n ffurfio'r Cynllun Deisebau, wedi iddyn nhw sefydlu gweithgor sy'n gyfrifol am gadw golwg cyffredinol ar drefniadau'r Cynllun. Mae'r Cyngor yn bwriadu cyhoeddi ei Gynllun Deisebau cyn mis Mawrth 2023.

**Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod â chwe aelod lleyg a deuddeg aelod etholedig ar ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nid yw wedi gallu recriwtio'r holl aelodau lleyg angenrheidiol ac mae ar hyn o bryd yn hysbysebu dwy swydd wag**

- Ym mis Rhagfyr 2021 cymeradwyodd y Cyngor yr argymhelliad gan ei Bwyllgor Archwilio i fod â Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd o 12 aelod cyfetholedig a chwe aelod lleyg.
- Fe wnaeth panel cyfweld y Cyngor, ym mis Chwefror 2022, gyfweld â chwe ymgeisydd ac argymell pedwar i'w cymeradwyo. Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r pedwar argymhelliad ym mis Mawrth 2022. Mae'r Cyngor wedi ail-hysbysebu’r ddwy sedd wag ac yn gobeithio cadarnhau'r apwyntiadau sy'n weddill yn ystod hydref 2022 yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Cynhaliodd y Cyngor sesiwn hyfforddiant cychwynnol i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer ei aelodau ym mis Mehefin 2022. Seiliwyd y sesiwn hon ar raglen a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym y bydd hyfforddiant yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ogystal â chanllawiau CIPFA ar rôl y pwyllgorau archwilio.

**Fe wnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBCyG) gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2022 ac un o nodau’r chwe chyngor cyfansoddol yw trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol y CBCyG i symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff**

- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau ar 17 Mawrth 2021 i greu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig ledled Cymru. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBCyG) ar 1 Ebrill 2021. Daeth swyddogaethau cychwynnol y CBCyG i rym ar 30

Mehefin 2022. Mae Cyngor Gwynedd, fel Awdurdod lletya Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC), yn arwain ar brosiect i ymateb i'r drefn newydd hon, 'Cydweithio Prif Gynghorau'.

- Y partneriaid sy'n rhan o'r CBCyG yw:
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir y Fflint
    - Cyngor Gwynedd
    - Cyngor Sir Ynys Môn
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
    - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cytunodd y chwe chyngor cyfansoddol y dylai'r CBCyG barhau â'r cyfeiriad a sefydlwyd gan yr BUEGC. Ym mis Ionawr 2022, cyflwynwyd adroddiad gerbron Cabinetau/Byrddau Gweithredol pob un o'r chwe chyngor sy'n aelodau yn argymell trosglwyddo swyddogaethau'r BUEGC i is-bwyllgor grymusol y CBCyG. Mae'r model arfaethedig yn gweld Is-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd yn adrodd i'r CBCyG. Cynigiwyd y newid hwn i gyflawni model llywodraethu symlach ac osgoi unrhyw ddyblygu rhwng y ddau gorff.
- Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn aros am ganllawiau a rheoliadau ynglŷn â chraffu, pwerau benthyg a statws TAW i ddatblygu gwaith y CBCyG ymhellach.

**Mae'r Cyngor eisoes yn defnyddio Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ar gyfer penderfyniadau corfforaethol a phrosiectau yn y sector gofal gan ei fod yn cynnig hyblygrwydd, a byddai unrhyw ddefnydd yn y dyfodol yn destun cyngor cyfreithiol arbenigol**

- Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod eisoes yn defnyddio Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ar gyfer penderfyniadau a phrosiectau corfforaethol ac ar gyfer gwaith yn y sector gofal. Mae'r Cyngor yn ei weld fel arf i ddefnyddio ble mae'n briodol i greu hyblygrwydd. Nododd y byddai unrhyw benderfyniad i ddefnyddio'r Pŵer yn destun cyngor cyfreithiol arbenigol.
- Mae'r Cyngor wedi creu nodyn briffio un dudalen a ddarperir i Benaethiaid Adran ar y Pŵer. Mae penaethiaid yn cael eu briffio ar y Pŵer fel rhan o baratoi prosiectau yn y dyfodol.

Yn gywir

Alan Hughes

Archwilydd Arweiniol